CLAERWEN HUB

Walking Trails

FUN Facts

The waymarkers show a Welsh Mountain Ram. There are around 20,000 sheep on the whole estate. The Welsh Mountain breed is small, very hardy and can tolerate harsh mountain conditions, especially in the Claerwen Valley, which has less shelter from trees.



EASY

Walk around the base of the largest and newest dam in the Elan and Claerwen Valleys.

FOLLOW THE GREEN ARROWS

Claerwen · Cwm Elan Valley

- CLAERWEN LOWER CAR PARK INFORMATION BOARD
- 0.8KM/0.5 MILES
- 20 MINUTES
- EASY
  Tarmacked route suitable for pushchairs and wheelchairs.

THE ROUTE

1. From the information board, walk for 50m along the road.
2. Turn right towards the dam following the green arrows.
3. At the base of the dam turn left and cross the bridge. Turn left again after the bridge, following the tarmacked path away from the dam.
4. At the road bridge, turn left again to complete the loop and return to the car park.

GOOD TO KNOW

- WC Toilets are available at the lower car park. Please note that the water is not suitable for drinking.
- There is a defibrillator next to the toilets.
- P Parking is available at the top or bottom of the dam.

MODERATE

Walk to a stunning waterfall with amazing views of the largest dam.

FOLLOW THE PURPLE ARROWS

Claerwen · Cwm Elan Valley

- CLAERWEN LOWER CAR PARK INFORMATION BOARD
- 1KM/0.6 MILES EACH WAY
- 20 MINUTES EACH WAY
- MODERATE
  Mostly in fields or open grassland with a moderate incline.

THE ROUTE

1. From the information board, walk for 50m along the road and follow the purple arrow across the bridge.
2. Look for a purple arrow pointing diagonally to the left on the tall bridleway post. In front of a small stone building is a wooden gate. Go through this gate and go straight across two fields through two more gates.
3. Cross the bridge then follow the arrow up the hill to the right. Keep an eye out for marker posts with the purple arrows.
4. Follow the arrows for about 400m before reaching the bottom of the waterfalls. The final post has an arrow pointing the way back. Follow the path back the way you came, remembering to close all gates after you.



CLAERWEN RESERVOIR

Claerwen Reservoir can hold 48,300 megalitres. That's nearly as much water as all the reservoirs in the Elan Valley combined! In total, the reservoirs could hold 99,499 megalitres of water – that's nearly 40,000 sized Olympic swimming pools!

Originally, there were plans to have three dams in the Claerwen Valley, matching those in the Elan Valley. Work was started on Dol y Mynach but was stopped due to World War I. After World War II technology had improved enough to build one larger dam, which is why Claerwen is the newest (1946 – 1952) and much larger than the other dams. It was opened by Queen Elizabeth II on 23 October 1952. It was one of Her Majesty's first engagements as Queen.

FUN Facts

ELAN VALLEY

Code of Conduct

LOOK AFTER YOURSELVES

- Be prepared for sudden weather changes: have warm, waterproof clothing, stout footwear, and food and drink
- No swimming, canoeing, or boating
- If cycling, horse-riding or driving, keep strictly to the designated rights of way
- Close all gates after you
- Keep dogs on leads or under strict close control

LOOK AFTER OUR ENVIRONMENT

- Protect the water and our landscape by not polluting and taking your rubbish home
- Do not light fires and guard against all risk of fire
- Leave all plants and animals for others to enjoy
- Only fish if you have the correct permit
- No overnight parking or camping
- Follow the drone code

Contact Mountain Rescue in an emergency:
Call 999 - Police - Mountain Rescue
There is no mobile phone signal in this area.

LD6 5HP
elan-valley.co.uk

@elan_valley
@elanvalley #elanvalley

CLAERWEN

LLWYBRAU CWM ELAN
HAWDD | CYMEDROL

Cwm Elan Valley

LLWYBRAU CERDDED

Hyb Claerwen

FFEITHIAU Difyr

Mae'r cyfeirbwyntiau yn dangos Hwrdd Mynydd Cymreig. Mae tua 20,000 o ddefaid ar yr ystâd gyfan. Mae defaid Mynydd Cymreig yn fach, ond yn gryf, a gallant oddef amodau llym y mynyddoedd, yn enwedig yng Nghwm Claerwen, lle mae llai o gysgod coed.

HAWDD

DILYNWCH Y SAETHAU GWYRDD

Cerddwch o gwmpas gwaelod yr argae mwyaf a diweddaraf yng Nghwm Elan a Chwm Claerwen.

- HYSBYSFWRDD MAES PARCIO ISAF CLAERWEN
- 0.8KM/0.5 MILLTIR
- 20 MUNUD
- HAWDD
  Llwybr tarmac s'yn addas ar gyfer cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn.

Y LLWYBR

1. O'r hysbysfwrdd, cerddwch am 50m ar hyd y ffordd.
2. Trowch i'r dde tuag at yr argae, gan ddilyn y saethau gwyrdd.
3. Ar waelod yr argae trowch i'r chwith a chroesi'r bont. Trowch i'r chwith eto ar ôl y bont, gan ddilyn y llwybr tarmac i ffwrdd o'r argae.
4. Wrth y bont ffordd, trowch i'r chwith eto i gwblhau'r cylch, gan ddychwelyd i'r maes parcio.

GWERTH EI WYBOD

- WC Mae toiledau ar gael yn y maes parcio isaf. Sylwer: nid yw'r dŵr yn addas i'w yfed.
- Mae diffibriliwr ar gael ar bwys y toiledau.
- P Mae lleoedd parcio ar gael ym mhen uchaf neu isaf yr argae.

CYMEDROL

DILYNWCH Y SAETHAU PORFFOR

Cerddwch i raeadr drawiadol gyda golygfeydd rhyfeddol o'r argae mwyaf.

- HYSBYSFWRDD MAES PARCIO ISAF CLAERWEN
- 1KM / 0.6 MILLTIR BOB FFORDD
- 20 MUNUD BOB FFORDD
- CYMEDROL
  Yn bennaf dros gaeau neu laswelltir agored gyda llethr gymedrol.

Y LLWYBR

1. O'r hysbysfwrdd, cerddwch am 50m ar hyd y ffordd a dilynwch y saethau porffor dros y bont.
2. Chwiliwch am saeth borffor yn pwyntio i'r chwith ar bostyn tal y llwybr ceffylau. O flaen adeilad cerrig bach mae giât bren. Ewch drwy'r giât hon ac yn syth ar draws dau gae drwy ddwy giât arall.
3. Croeswch y bont cyn dilyn y saeth i fyny'r bryn i'r dde. Cadwch eich llygaid yn agored am y pyst marcio gyda'r saethau porffor.
4. Dilynwch y saethau am tua 400m cyn cyrraedd gwaelod y rhaeadrau. Mae saeth ar y postyn olaf yn dangos y ffordd yn ôl. Dilynwch y llwybr yn ôl ar hyd y ffordd y daethoch, a chofiwch gloi pob giât ar eich ôl.

CRONFA DDŴR CLAERWEN

Gall Cronfa Ddŵr Claerwen ddal 48,300 megalitr o ddŵr. Mae hynny bron â bod cymaint â'r holl gronfeydd dŵr yng Nghwm Elan gyda'i gilydd! Gallai'r cronfeydd ddal cyfanswm o 99,499 megalitr o ddŵr – mae hynny bron i 40,000 o byllau nofio Olympaidd!

Yn wreiddiol, roedd cynlluniau i gael tri argae yng Nghwm Claerwen, yn cyfateb i'r rhai yng Nghwm Elan. Dechreuwyd ar y gwaith ar Ddôl-y-mynach ond daeth i ben oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd technoleg wedi gwella digon i adeiladu un argae mwy o faint, a dyna pam mai Claerwen yw'r diweddaraf (1946 – 1952) ac yn llawer mwy o ran maint o'i gymharu â'r argaeau eraill. Fe'i hagorwyd gan Frenhines Elizabeth II ar 23 Hydref 1952. Roedd yn un o ddyletswyddau cyntaf Ei Mawrhydi fel Brenhines.

FFEITHIAU Difyr

Cod Ymddygiad

CWM ELAN

GOFALWCH AMDANOCH CHI EICH HUNAIN

- Byddwch yn barod am newidiadau sydyn yn y tywydd; dewch â dillad cynnes a diddos, esgidiau cadarn, bwyd a diod
- Dim nofio, canŵio na rhwyfo
- Wrth feicio, marchogaeth neu yrru, cadwch at y llwybrau tramwy
- Caewch bob gât ar eich ôl
- Cadwch gŵn ar dennyn neu o dan reolaeth dynn

GOFALWCH AM EIN HAMGYLCHEDD

- Amddiffynnwch y dŵr a'n tirwedd drwy beidio â llygru a thrwy fynd â'ch sbwriel adre
- Peidiwch â chynnau tanau a gofalwch rhag pob risg o dân
- Gadewch bob planhigyn ac anifail i bobl eraill eu mwynhau
- Peidiwch â physgota oni bai bod y drwydded iawn gennych
- Dim gwersylla na pharcio dros nos
- Dilynwch y cod dronau

Cysylltwch ag Achub Mynydd mewn argyfwng:
Ffoniwch 999 – yr Heddlu – Achub Mynydd
Nid oes signal ffôn symudol yn yr ardal hon.

LD6 5HP
elan-valley.co.uk

@elan_valley
@elanvalley #elanvalley